Caniatáu i’r cynhyrchu ailddechrau yn un o safleoedd Russell Hume

Bydd y busnes yn gallu ailddechrau cynhyrchu a dosbarthu cynhyrchion i gwsmeriaid, ond dim ond o'r safle yn Lerpwl. Ni all y safleoedd eraill ailddechrau cynhyrchu hyd nes bod yr un sicrwydd yn cael ei ddarparu.

Daeth y cynhyrchu a’r dosbarthu i stop ym mhob un o safleoedd Russell Hume dros bythefnos yn ôl hyd nes y gallai'r busnes roi sicrwydd ei fod yn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth berthnasol.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban wedi gweithio'n ddwys gyda'r busnes i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn sgil ein hymchwiliad. O ganlyniad, rydym yn sicr bod bwyd sy'n cael ei gynhyrchu ar y safle hwn yn ddiogel. Bydd staff yr ASB yn parhau i fod yn bresennol yn ystod gweithrediadau.

Ni fydd codi'r hysbysiad statudol yn effeithio ar ymchwiliad cyfredol yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban, sy’n dal i fynd rhagddo, ac mae staff y ddau sefydliad yn parhau i fod yn bresennol mewn safleoedd yn Lloegr a'r Alban. Gwnaed y penderfyniad hwn ar y sail ein bod bellach yn sicr bod y bwyd sy'n cael ei gynhyrchu ar y safle Lerpwl yn ddiogel.

Mae'r camau a gymerwyd wedi bod yn gymesur ac rydym yn cydnabod yr effaith bosibl ar y busnes a bywoliaeth pobl. Bydd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn parhau i weithio gyda'r busnes i asesu statws y mesurau i atal cynhyrchu a dosbarthu sy'n parhau i fod ar waith yn y safleoedd eraill.